**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD 17 MEDI 2024, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Philip Roberts, Alan Pritchard, Cemlyn Jones, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Richard Robinson, Berwyn Parry Jones, Ann Lawton.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Beca Brown

**CLERC:** Meirion Jones

**1355. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**1356 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad fel a nodwyd uchod

**1357. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1358. I dderbyn cofnodion cyfarfod 20 Awst 2024**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1359. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim – nifer ar agenda heno

**1360. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1361. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 4ydd o Fedi 2024 yn y fynwent. Ymysg y materion a drafodwyd oedd

- adolygu'r gwaith ymarferol sydd ei angen yn y fynwent:
- Penderfynwyd bod angen gosod arwyddion newydd ynglŷn â defnydd o'r gofod parcio a pharchu'r fynwent.
- Penderfynwyd cysylltu â pherchennog fainc i'w hysbysebu bod angen gwaith cynnal a chadw ar ei eiddo.
- Penderfynwyd bod angen gwaith ar rhai o'r stêcs ar y cerrig beddi cyn i unrhyw waith trwsio ar y cerrig beddi cymerid lle.

- Penderfynwyd caniatâi cais am waith i osod cerbs ar gofeb oherwydd yr oedd y bedd yn y parth hynaf y fynwent gyda chofebion tebyg.
- Nodwyd unwaith eto cyflwr sâl y lon i'r eglwys sydd angen sylw ar frys.
- Cafwyd cyfarfod ar y pryd gyda pherchennog y tir gyferbyn ar fynwent er mwyn symud ymlaen gyda'r tendr ar gyfer gwaith ar y wal yn ymyl y fynwent.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1362. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 10fed o Fedi 2024. Ymysg y materion a drafodwyd oedd

- Fod gwaith cynnal a chadw y caeau chware yn mynd yn ei flaen
- Fod mainc newydd wedi cyrraedd i gae chwarae Cwm y Glo ac yn disgwyl i'w gosod
- Fod siglen newydd wedi cyrraedd i adnewyddu yr un a adnabuwyd wedi torri ar yr asesiad risg
- Gwaith mewn llaw i adnewyddu ffens Pwll Moelyn
- Gwaith yn cychwyn mis Tachwedd ar y Parc Sglefrio
- Gwaith i dynnu'r ffens bren o Pwll Moelyn i gychwyn
- Paratoi holiadur i Ysgol Gynradd Llanrug ar pa offer fyddai ei ychwanegu i'r cae chwarae
- Cymeradwywyd y rheolau ar gyfer y caeau chwarae
- Paratoi arwyddion 'Dim Cŵn' ar gyfer pob mynediad a'r caeau chwarae
- Gwirio fod y torch yn Y Sefydliad ar gyfer Sul y Cofio
- Holi am bris ar gyfer diffibriliwr yn Crawia
- Trefniadau Nadolig 2024, y coed a'r goleuadau i fyny erbyn y 29 o Dachwedd
- Hyrwyddo cystadleuaeth addurno tŷ gyda'r cyfnod agored rhwng 29 o Dachwedd a 15fed o Rhagfyr
- Beirniadu wythnos 16 o Rhagfyr rhwng 6 & 7 y hwyr
- Dilyn y drefn o focs siocled i bawb sydd yn ymgeisio
- Gwobrau Ienni Cyntaf £75, Ail £50, Trydydd £25
- Trefniadau hyfforddi ar gyfer y diffibriliwr ar y gweill
- Cerdded y llwybrau cyhoeddus yn mis Ebrill
- Cyfarfod nesaf o'r pwyllgor 12fed o Dachwedd am 6:00yh. Lleoliad i'r drefnu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1363. Materion yn ymwneud a parcio ar Lon Rallt, Capel, Cwm y Glo (Cyng Avril Jones)**

Nodwyd fod problemau gyda parcio ar Lon Rallt, Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Fod y mater yn cael ei ddelio ag o gyda Cyngor Gwynedd

**1364. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa fainc goffa ar barc sglefrio Cwm y Glo (Cyng Cemlyn Jones)**

Adroddwyd fod nifer o gwynion wedi dderbyn am gyflwr a'r offer sydd ar fainc goffaol ar gae Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Ystyrir fod hyn y fater sensitif ofnadwy ac fod gan y cyngor bolisi ar feinciau coffa. Y Cynghorwyr Avril Jones a Cemlyn Jones i gael gair gyda'r teulu

**1365. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 19:45

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: